



Gwasanaeth Democratiaeth
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

Y CYNGOR

Dyddiad ac Amser

1.30 y.h., DYDD IAU, 28AIN MEDI, 2023

*** NODER ***

Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu

https://gwynedd.public-i.tv/core//cy_GB/portal/home

Lleoliad

Cyfarfod Aml-leoliad

**Siambr Dafydd Orwig, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon LL55 1SH /
Rhithiol ar Zoom**

Pwynt Cyswllt

Eirian Roberts

01286 679018

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

(DOSBARTHUYD 20/09/23)

Ian Jones

Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth

www.gwynedd.llyw.cymru

DYDD MERCHER, 20 MEDI 2023

Annwyl Gyngorydd,

CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – DYDD IAU, 28 MEDI 2023

FE'CH GWYSIR TRWY HYN i gyfarfod aml-leoliad o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am 1.30 y.h., **DYDD IAU, 28AIN MEDI, 2023 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, CAERNARFON LL55 1SH / RHITHIOL AR ZOOM**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir



Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig

Annibynnol – Siambr Hywel Dda

Grwp Llafur / Rhydfrydol – Ystafell Ogwen

RHAGLEN

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. COFNODION

5 - 21

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf, 2023 fel rhai cywir.

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

5. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

6. CWESTIYNAU

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.18 y Cyfansoddiad.

7. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL A HUNANASESIAD 2022-23

22 - 188

Cyflwyno adroddiad Arweinydd y Cyngor.

8. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2022-23

189 - 208

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

9. ADOLYGIAD CYFANSODDIAD

209 - 224

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro.

10. RHYBUDDION O GYNNIG

(A) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD GRUFFYDD WILLIAMS

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho yn unol ag Adran 4.19 y Cyfansoddiad, bydd y Cyngorydd Gruffydd Williams yn cynnig fel a ganlyn:-

Nodwn y bygythiadau cynyddol i ffermwyr a'r byd ffermio gan gyrff anetholedig goruwch-genedlaethol sydd am eu gorfodi oddi ar eu tir.

Gwelwyd hyn ar waith yn yr Iseldiroedd, Iwerddon a mannau eraill yn ddiweddar, a bellach mae Llywodraeth Cymru hithau am droi 10% o dir amaethyddol Cymru yn goedwigoedd gan leihau ein cyflenwad bwyd cynhenid eto er bod bron i hanner y boblogaeth yn byw mewn tlodi yma.

Yn wyneb hyn oll galwaf ar Gyngor Gwynedd i ymrwymo i gefnogi'r fferm deuluol Gymreig sy'n cyfrannu cymaint at economi Gwynedd ac hefyd yn fodd i gynnal hunaniaeth ieithyddol a diwylliannol unigryw y sir a bod Cyngor Gwynedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i ail ystyried y penderfyniad i droi 10% o dir amaethyddol yn goedwigoedd.